

Adroddiad monitro cynllun yr Iaith Gymraeg

1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth
2018

Cyflwyniad

Ein rôl

Rydym yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio nyrsys a bydwagedd yn y DU. Rydym yn gwneud hyn trwy bennu safonau addysg, hyfforddiant, arfer ac ymddygiad fel bod nyrsys a bydwagedd yn gallu darparu gofal iechyd o ansawdd uchel trwy gydol eu gyfaoedd.

Rydym yn cadw cofrestr o nyrsys a bydwagedd sy'n bodloni'r safonau hynny, ac mae gennym broses glir a thryloyw er mwyn ymchwilio i nyrsys a bydwagedd nad ydynt yn llwyddo i gyflawni ein safonau.

Ymrwymiad corfforaethol

Mae aelodau'r Cyngor, y tîm Gweithredol a'r holl gyflogeion yn cyflawni rôl wrth weithredu ein cynllun iaith Gymraeg.

- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ein strategaeth gyffredinol.
- Mae'r tîm Gweithredol yn gyfrifol am weithredu ein strategaeth ac am bennu polisiau mewnol a chynlluniau busnes sy'n cynorthwyo darpariaeth cynllun yr iaith Gymraeg.
- Mae'r Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu yn gyfrifol am y tîm Polisi a Deddfwriaeth a'r tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI); felly, mae'n meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros gyflawni cynllun yr iaith Gymraeg.
- Mae'r tîm Polisi yn gyfrifol am fonitro newid deddfwriaethol a'r effaith ar ein gweithgarwch cynllunio busnes mewn perthynas â chydymffurfiaeth â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- Mae'r tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (o fewn y tîm Polisi) yn gyfrifol am ysgogi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a chynorthwyo perchnogion camau gweithredu unigol a'n cyflogeion i gydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg.

Cynnydd cynllun yr iaith Gymraeg

Yn unol ag Adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn yr un modd wrth gyflawni busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, i'r graddau ag y bo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Cymeradwywyd ein cynllun iaith Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2011.

Nod yr adroddiad monitro blynyddol yw rhoi crynodeb o'n cynnydd wrth weithredu ein cynllun iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Mae Atodiad 1 yn cynnwys adroddiad cryno (sy'n seiliedig ar gwestiynau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg).

Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar gynllun yr iaith Gymraeg, ac y bydd hyn yn ein helpu i gyflawni ein nodau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn helpu i gyfrannu at ein dull gweithredu a'i ddatblygu.

Mae'n gweithgarwch ymgysylltu rheoliadol yng Nghymru yn dibynnu ar natur y polisi neu'r prosiect. Ar gyfer rhaglenni newid corfforaethol, rydym yn sicrhau ein bod yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu ar draws y DU, gan hysbysu llywodraethau datganoledig pan fo hynny'n briodol. Er enghraifft:

- Digwyddiadau fel rhan o'n gwaith o ddatblygu'r safonau nyrsio ar gyfer y dyfodol.
- Rydym wedi parhau i ddiweddarau llywodraeth Cymru am ein gwaith o ddechrau rheoleiddio cymdeithion nyrsio yn Lloegr. Rydym yn rhoi diweddariadau iddynt trwy'r Prif Swyddog Nyrsio yn bennaf.
- Ymatebom i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch lefelau staffio nyrsys yn 2017.
- Cafodd ein hymgyngoriad yn 2017 ynghylch safonau Saesneg ar gyfer nyrsys o wledydd tramor ymatebion gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a GIG Cymru.
- Mae'n gwaith presennol ar ein hadolygiad o'r broses ar gyfer gweithwyr o wledydd Tramor yn cynnwys digwyddiad yng Nghaerdydd a gweithgarwch ymgysylltu arall gyda chynrychiolwyr o Gymru.

Safonau'r Gymraeg

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi darparu adborth manwl i lywodraeth Cymru ynghylch ei chynigion ar gyfer safonau'r Gymraeg, y bwriadwyd iddynt ddisodli ein cynllun iaith Gymraeg. Yn ogystal, buom yn trafod goblygiadau posibl unrhyw safonau newydd gyda rheolyddion gofal iechyd eraill. Fodd bynnag, ar ôl ymgynghori, ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd llywodraeth Cymru nad yw'n bwriadu cyflwyno is-ddeddfwriaeth a fydd yn dwyn rhagor o gyrrff dan ofynion safonau'r Gymraeg. Yn hytrach, bydd yn blaenoriaethu bil newydd i hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg.

Felly, mae'n cynllun iaith Gymraeg yn parhau i fod mewn grym a byddwn yn parhau i gydymffurfio â'r ymrwymïadau yn ein cynllun, gan gyflwyno adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i drin y Gymraeg mewn ffordd gyfartal a byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth Cymru, y rheolyddion proffesiynol a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol er mwyn sicrhau bod unrhyw safonau statudol yn y dyfodol yn rhai wedi'u targedu a'u bod yn rhesymol ac yn gymesur.

Gwaith rheoliadol Comisiynydd y Gymraeg yn 2018–19

Gan ymateb i'r cais am wybodaeth eleni, buom yn ystyried y llythyr a gawsom gan y Comisiynydd dyddiedig 3 Mai 2018 hefyd, a oedd yn nodi'r gwaith rheoliadol arfaethedig y bydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag ef yn 2018-19. Roedd hyn yn cynnwys pennu'r camau hunan-reoleiddio y gall sefydliadau eu cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a sut y gallant gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Aethom ati i lenwi'r rhestr gyfeirio a anfonwyd gan y Comisiynydd wrth baratoi'r adroddiad hwn, a byddwn yn sicrhau ein bod yn cymryd y cyngor wrth symud yn ein blaen. Er enghraifft:

- Nid ydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol o'r blaen, ond byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hwn eleni ac yn y dyfodol.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod

Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar:

- barhau i godi proffil cynllun yr iaith Gymraeg ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau bod cyflogeion yn llwyr ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol oddi tano a pham.
- monitro'r amserlen er mwyn gweithredu unrhyw safonau newydd arfaethedig gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- defnyddio *Hunan-reoleiddio: canllawiau i sefydliadau* er mwyn gweld a oes unrhyw arfer gorau y gallwn symud yn ei flaen.

Atodiad 1: Adroddiad cryno am weithrediad cynllun yr iaith Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018

Asesiad o'r effaith ar bolisi	
Nifer a chanran y polisiau (gan gynnwys y rhai a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) lle'r ystyriwyd effeithiau'r polisi ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.	<ol style="list-style-type: none">1. Rhaglen newid addysg2. Polisi ffioedd cymdeithion nyrsio3. Polisi dull gweithredu rheoliadol o ran cymdeithion nyrsio4. Polisi tramor5. Polisi Saesneg6. Strategaeth addaswydd i wneud gwaith <p>Mae gan bob polisi asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n cynnwys ystyriaeth o effeithiau'r polisi ar y defnydd o'r iaith</p>

	Gymraeg.												
<p>Enghraifft o asesiad y barnwyd ei fod yn cael effaith ar y defnydd o'r iaith Gymraeg a manylion y ffordd y diwygiwyd y polisi o ganlyniad.</p>	<p>Roedd ein rhaglen newid addysg yn cynnwys y set ganlynol o safonau:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth 2. Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr 3. Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn-gofrestru 4. Safonau medrusrwydd ar gyfer nyrsys cofrestredig <p>Cynhaliwyd y rhaglen newid hon rhwng 2016 a 2018. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg, sawl gwaith yn ystod y rhaglen.</p> <p>Fel rhan o'r gweithgarwch ymgysylltu ffurfiannol a chyn-ymgyngori ac ymgynghori, cynhaliom ddigwyddiadau yng Nghymru. Argraffom gopiâu o'r holl ddogfennau yr oeddent ar gael yn Gymraeg ac anogwyd cyfranogwyr i ymgysylltu â ni yn Gymraeg pe byddai'n well ganddynt wneud hynny. Roedd pedwar arbenigwr gwlad, gan gynnwys o Gymru, yn rhan o'n grŵp arbenigwyr pwnc (SME), y buom yn gweithio'n agos â nhw yn ystod y cam cymathu a drafftio cyn ymgynghori ac ar ôl ymgynghori. Roedd amrywiaeth eang o randdeiliaid o bedair gwlad y DU wedi ymateb i'n hymgyngoriad. Roedd 1,932 o unigolion a sefydliadau wedi ymateb i ymgynghoriad un am y safonau addysg newydd ac roedd 706 o sefydliadau ac unigolion wedi ymateb i ymgynghoriad dau ynghylch presgripsiynu a rheoli meddyginiaethau.</p> <p>Cawsom ymateb gan Gomisiynydd y Gymraeg hefyd, a ystyriom wrth fireinio'r safonau yn dilyn y gweithgarwch ymgynghori.</p> <p>Yn wir, ar lefel ystadegol, gwelwyd gor-gynrychiolaeth o Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad o'u cymharu â Lloegr. Lluniwyd y tabl canlynol gan Why Research, sef yr asiantaeth ymchwil allanol a fu'n dadansoddi'r ymatebion i'n hymgyngoriad.</p> <table border="1" data-bbox="566 1771 1503 1995"> <thead> <tr> <th></th> <th>Cyfran o'n cofrestr</th> <th>Cyfran yn ymateb i ymgynghoriad 1</th> <th>Gwahaniaeth net (pwyntiau %)</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Lloegr</td> <td>78.9%</td> <td>71.0%</td> <td>-7.9%</td> </tr> <tr> <td>Yr Alban</td> <td>10.0%</td> <td>14.0%</td> <td>+4.0%</td> </tr> </tbody> </table>		Cyfran o'n cofrestr	Cyfran yn ymateb i ymgynghoriad 1	Gwahaniaeth net (pwyntiau %)	Lloegr	78.9%	71.0%	-7.9%	Yr Alban	10.0%	14.0%	+4.0%
	Cyfran o'n cofrestr	Cyfran yn ymateb i ymgynghoriad 1	Gwahaniaeth net (pwyntiau %)										
Lloegr	78.9%	71.0%	-7.9%										
Yr Alban	10.0%	14.0%	+4.0%										

Cymru	5.2%	7.0%	+1.8%
G. Iwerddon	3.5%	7.0%	+3.5%
Heb fod o'r DU	2.4%	2.0%	-0.4%

Mae pum set y safonau bellach ar gael ar ein gwefan, gan gynnwys fersiynau Cymraeg. Ar ôl cyhoeddi'r safonau, rydym wedi symud ymlaen i'r cam gweithredu nawr. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â phedwar rhanddeiliad gwlad a bwriedir cynnal digwyddiadau gweithredu yn yr hydref. Yn ogystal, rydym wedi cychwyn ar y gwaith ar gynorthwyo gwybodaeth ar gyfer ein safonau newydd ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr ac mae gennym arbenigwyr pwnc o bedair gwlad y DU. Yn ystod digwyddiad a gynhaliwyd gan CNB yn ddiweddar ynghylch dogfennaeth asesu arfer (PAD), cawsom gyflwyniadau gan wahanol arfer gorau o ran PAD, gan gynnwys Cymru. Bydd y gweithgarwch ymgysylltu yn rhan o'n gwaith nesaf ar weithredu ac mae hyn hefyd yn cynnwys ymgysylltu â'r bedair wlad ar lefel strategol.

Un cam gweithredu allweddol yr ydym wedi'i gymryd o ganlyniad i'n gweithgarwch ymgysylltu a'n hasesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg oedd cynnwys cwestiwn yn ein harolwg o'r holl Sefydliadau Addysg Cymeradwy er mwyn pennu a ydynt yn darparu cyrsiau yn Gymraeg.

Cyhoeddiadau	
Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd	2827
Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg	128
	<p>Mae hyn yn cyd-fynd â'n cynllun iaith Gymraeg sy'n dweud bydd y wybodaeth ag anelir at gleifion ac aelodau'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn cyhoeddi safonau, canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall ar gyfer gweithwyr proffesiynol nad yw ar gyfer y cyhoedd yn uniongyrchol, yn Saesned. Er hyn, rydym yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais. Yn ogystal â'r hyn a dangosir yn y cynllun, rydym yn cyfieithu deunyddiau pan fyddwn yn ymgysylltu ag aelod o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, e.e. unrhyw deunyddiau a dogfennau ymgynghori ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru.</p>

Cwynion	
Nifer y cwynion a gafwyd ynghylch ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru	Cafwyd 264 o gyfeiriadau ynghylch nyrsys a bydwagedd y mae ganddynt gyfeiriad cofrestredig yng Nghymru.
Nifer y cwynion a gafwyd yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru	Ni chawsom unrhyw gyfeiriadau yn Gymraeg yn ystod 2017–18.
Nifer y cwynion a gafwyd ac yr oeddent yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i gynllun iaith Gymraeg	Ni chawsom unrhyw gwynion am weithrediad cynllun yr iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, sef 2017-18.
Gwefan	
Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg	<p>Llai nag 1%.</p> <p>Mae'r brif wefan yn cynnwys tudalen 'Amdanom ni' yn Gymraeg, y mae modd cyrraedd trwy bwyso botwm 'Cymraeg' yn y bar gwe-lywio. Mae'r dudalen hon yn dwyn ynghyd gwybodaeth allweddol amdanom fel rheolydd.</p> <p>Fel y dywedir uchod, mae hyn yn cyd-fynd â'n cynllun iaith Gymraeg, sy'n nodi bod gwybodaeth sydd ar gyfer cleifion ac aelodau'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyhoeddir safonau, canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall ar gyfer gweithwyr proffesiynol nad yw ar gyfer y cyhoedd yn uniongyrchol, yn Saesneg. Fodd bynnag, o gael cais, rydym yn cynnig gwasanaeth i'w cyfieithu i'r Gymraeg. Yn ychwanegol i'r hyn a nodwn yn y cynllun, rydym yn cyfieithu deunyddiau pan fyddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg e.e. ein deunyddiau ymgynghori a'r dogfennau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru.</p>
Tystiolaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gynlluniau i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth yn Gymraeg ar y wefan	<p>Rydym yn parhau i gynnig swyddogaeth Browsealoud ar y wefan, sy'n galluogi defnyddwyr i gyfieithu'r wefan gyfan i'r Gymraeg, naill ai er mwyn ei darllen neu er mwyn gwrandao arni (gan ddefnyddio cyfleuster cyfieithu Google).</p> <p>Bydd fersiynau Cymraeg ar gael o ymgynghoriadau polisi yn y dyfodol. Mae fersiynau Cymraeg ar gael o'r holl ddogfennau</p>

	craidd.
Tystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses a ddefnyddir er mwyn sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd yn cydymffurfio â gofynion cynllun yr iaith Gymraeg (os yw'r broses yn wahanol i'r hyn a adroddwyd yn 2016-17)	Rydym yn parhau i adolygu'r cynnwys presennol ar y wefan er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'n polisi o sicrhau bod yr holl ddogfennau arwyddocaol ar gael yn Gymraeg. Mae'r dogfennau hyn wastad yn ymddangos wrth ymyl y fersiynau Saesneg.
Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg	
Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir er mwyn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol o ddefnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau.	<p>Mae'r ddolen i'r dudalen Gymraeg yn amlwg ar dudalen hafan ein gwefan. Ceir dolen glir, yn Gymraeg, i'r dudalen am ein hymrwymiad i'r cynllun iaith Gymraeg, sy'n eistedd dan 'Amdanom ni'.</p> <p>Rydym yn ymateb i geisiadau am wybodaeth ac adnoddau i fod ar gael mewn gwahanol ffurfiau, ond nid ydym wedi cael unrhyw geisiadau mewn negeseuon e-bost am fersiynau Cymraeg ac nid yw ein canolfan gyswllt wedi cael unrhyw geisiadau am rywun sy'n siarad Cymraeg. Byddem, fodd bynnag, yn ymateb i unrhyw gais.</p> <p>Cyfarfod Cyngor CNB yng Nghymru Cynhaliodd y Cyngor ei gyfarfodydd ac amrediad o ddigwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru ar 22-24 Mai 2017.</p> <p>Cymrwyd sawl cam i sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried yn y digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid ac yn ystod cyfarfod cyhoeddus y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • anfon gwahoddiadau i'r cyfarfod a'r digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymraeg a Saesneg. • holi pobl ymlaen llaw am eu hanghenion o ran y Gymraeg. • cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r holl ddeunyddiau ar gyfer cyfarfod y Cyngor (roedd deunyddiau ar-lein a copïau caled ar gael ar y diwrnod). • cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ystod cyfarfod y Cyngor. • ceisio adborth trwy gyfrwng arolygon (yn Gymraeg ac yn

	<p>Saesneg).</p> <p>Yn ogystal, roedd pob arolwg adborth yn cynnwys cwestiwn penodol am ein dull gweithredu o ran cynllun yr iaith Gymraeg:</p> <p><i>A ydych chi'n fodlon gyda'r dull gweithredu o ran cyfathrebu gyda siaradwyr Cymraeg yn ystod y cyfarfodydd hyn?</i> Yr atebion ym mhob achos oedd 'Ydw; Nac ydw; Amherthnasol.' Roedd y canlyniad cyfunol ar gyfer yr holl arolygon fel a ganlyn:</p> <table border="1" data-bbox="568 562 1002 981"> <tr> <td>Ydw</td> <td>68</td> </tr> <tr> <td>Amherthnasol</td> <td>43</td> </tr> <tr> <td>Gwag</td> <td>15</td> </tr> <tr> <td>Nac ydw</td> <td>1</td> </tr> <tr> <td>Ydw a Nac ydw</td> <td>1</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>128</td> </tr> </table> <p>Felly, roedd mwyafrif yr ymatebion (111 o 128) yn fodlon gyda'n dull gweithredu tuag at yr iaith Gymraeg neu wedi nodi nad oedd yn berthnasol iddynt. Gadawyd 15 holiadur pellach yn wag.</p> <p>Roedd un ymatebydd a oedd yn ymateb i'r arolwg 'Nyrzio a Bydwreigiaeth ar waith yng Nghymru' wedi ateb 'nac ydw', ond ni roddwyd unrhyw esboniad pellach ganddynt ynghylch pam eu bod yn teimlo'n anfodlon gyda'n dull gweithredu o ran yr iaith Gymraeg.</p>	Ydw	68	Amherthnasol	43	Gwag	15	Nac ydw	1	Ydw a Nac ydw	1	Cyfanswm	128
Ydw	68												
Amherthnasol	43												
Gwag	15												
Nac ydw	1												
Ydw a Nac ydw	1												
Cyfanswm	128												
<p>Gwybodaeth ynghylch dulliau a ddefnyddiwyd er mwyn asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. trwy asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth presennol / posibl)</p>	<p>Gweler yr adran uchod ynghylch sut y gwnaethom fonitro'r ymatebion ymgynghori i'r Rhaglen Addysg.</p>												
<p>Achosion addasrwydd i wneud gwaith</p>													
<p>Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru</p>	<p>Cynhaliom 77 o ddigwyddiadau hunanfodol a 73 o ddigwyddiadau heb fod yn hunanfodol (ystyriwyd 130 o achosion hunanfodol ac 89 o achosion heb fod yn hunanfodol yn ystod y digwyddiadau</p>												

	hyn).
Nifer y gwrandawiadau lle y cafwyd cais gan dyst i siarad yn Gymraeg	0. Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan dyst i siarad yn Gymraeg.
Nifer y gwrandawiadau lle y cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.	0. Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau lle y cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.
Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith	
Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. sy'n newydd er 1 Ebrill 2017) a gafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.	<p>Mae'r holl ddechreuwyd newydd yn cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gorfodol wyneb yn wyneb ac ar ffurf e-ddysgu, sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.</p> <p>Presenoldeb mewn hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018: roedd 215 o staff cymwys wedi ymuno â'r sefydliad ac roedd 183 wedi mynychu hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wyneb i wyneb = mynychodd 85%.</p> <p>Presenoldeb mewn hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth rhwng 1 Ebrill 2014 ac 18 Mehefin 2018: roedd 632 o staff wedi mynychu hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth rhwng y dyddiadau hyn. Nid ydym yn dal data ynghylch ffigurau mynychu hyfforddiant cyn 2014 ac nid oedd ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn y cwrs hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyn yr Haf 2016 – bellach, yn dilyn adolygiad, caiff ei gynnwys yn yr holl sesiynau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.</p>
Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ers y cyflwynwyd yr hyfforddiant.	<p>Rhaid i bob cyflogai gwblhau'r e-ddysgu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob dwy flynedd.</p> <p>Ffigurau cwblhau e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018: 95% (mae hyn yn cynnwys cyflogeion newydd).</p> <p>Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar ein porth dysgu ar gyfer cyflogeion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cwrs e-Ddysgu – Cynlluniwyd y model hwn i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ac mae ar gyfer unrhyw un y mae ganddynt ddiddordeb yn hanes y Gymraeg, o'i

	<p>gorffennol tan ei sefyllfa heddiw</p> <ul style="list-style-type: none">• Cymraeg gan Surface languages – Adnoddau ar-lein er mwyn dysgu Cymraeg ar-lein• Dysgu Cymraeg y BBC – Canllawiau dysgu a fideos ar-lein. <p>Mae gennym weithdai pwrpasol am yr effaith ar gydraddoldeb ar gyfer cyflogwyr polisi, sy'n cynnwys asesu o ran yr iaith Gymraeg. Cynhaliom dri gweithdy yn ystod y cyfnod adrodd.</p>
--	---